# Yr Is-Bwyllgor Datblygu Gwledig

**RDC(3)-11-08 (p1): 25 Mehefin 2008**

## Atodiad C

## Ymateb Cymdeithas yr Iaith i Strategaeth Cyngor Gwynedd ar Ad-Drefnu Addysg Gynradd (Cynllun Diwygiedig ar 13.12.07)

Yn dilyn ein papur ymateb gwreiddiol strategaeth ddrafft y Cyngor Sir, yr ydym yn awr yn cynnig y papur atodol hwn yn dilyn y diwygio sylweddol a fu ar gynllun y Cyngor o flaen eu cyfarfod ar 13.12.07. Yr ydym yn dal o'r farn - gw ein hymateb gwreiddiol) fod y Cyngor wedi cyhoeddi ymchwil llawer helaethach nag a wnaed mewn siroedd eraill ac wedi gwneud ymdrechion sylweddol (ond ffaeledig yn ein tyb ni) o ran ymgynghori. Canolbwyntiwn yma ar y 3 gwendid enfawr yn y strategaeth -

### A. Proses Ymgynghorol Ffaeledig

Croesawn fod y Cyngor wedi newid ei feddwl rhwng cyfarfod y Pwyllgor Craffu ar 25.10.07 a chyfarfod y Cyngor llawn ar 13.12.07 trwy

roi heibio'r bwriad i benderfynu ar ddyfodol degau o ysgolion rhwng Ionawr a Mawrth 2008,

wahodd trafodaeth trwy'r sir ar yr holl strategaeth ei hunan cyn gweithredu'r strategaeth mewn ysgolion unigol.

Nid yn unig ein bod yn croesawu fod y Cyngor wedi gwahodd ymatebion i'w strategaeth dros y misoedd nesaf, ond yr ydym hefyd yn annog pawb i anfon eu hymatebion at y Cyngor. Awn mor bell a threfnu Taith Gerdded trwy'r sir i gasglu ymatebion a'u cyflwyno at y Cyngor.

Fodd bynnag, erys pryderon sylfaenol am ddilysrwydd y broses ymgynghorol

### 1) Beth yw Gwir Agwedd y Cyngor Tuag at Ymgynghori?

A ydyw'r Cyngor yn gweld y cyfnod hwn yn gyfle difrifol i dderbyn ymatebion gyda pharodrwydd i newid y strategaeth o ganlyniad ? Neu a ydyw'n gweld y cyfnod yn gyfle Cysylltiadau Cyhoeddus i werthu ei strategaeth ei hunan i bobl amheus iawn ? Fe ddaw y prawf ar derfyn y cyfnod hwn. Os bydd y ddrafft derfynol bron yr un fath a'r ddrafft wreiddiol, yna rhaid fydd casglu na bu'n ymdrech dilys. Ond anogwn bawb i gymryd y Cyngor ar ei air ar hyn o bryd.

### 2) Paham y Driniaeth Anheg o'r 7 Ysgol Gyntaf ?

Rhoddwyd heibio'r bwriad i gynnal ymgynghori statudol am ddyfodol degau o ysgolion rhwng Ioanwr a Mawrth 2008 cyn cael trafodaeth gyffredinol ar hanfod yr holl strategaeth. Ond penderfynwyd bwrw mlaen gydag ymgynghori statudol terfynol am ddyfodol 7 ysgol rhwng Mai a Gorffennaf 2008 - sef Llawrybetws, Parc, Aberdyfi, Abersoch, Croesor, Llidiardau a Rhydyclafdy. Mae hyn yn gwbl anheg am y rhesymau hyn -

Ni bydd ond 11 wythnos i ddod i benderfyniad terfynol ar dynged 7 o ysgolion a chymunedau Cymraeg. Nid oes unrhyw Gyngor Sir yng Nghymru erioed wedi rhoi cyn lleied o amser a sylw i dynged ysgolion unigol yn unol a'r ddyletswydd statudol. Golygir fod y Cyngor yn methu yn ei ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw dyladwy i bob achos unigol.

Gan na bydd y Cyngor wedi trafod yr ymatebion i'w strategaeth gyffredinol tan ei gyfarfod ym mis Gorffennaf 2008, golygir y daw argymhellion terfynol am dynged y 7 ysgol hyn CYN fod y Cyngor wedi terfynoli'i strategaeth. Penderfynir ar sut i weithredu'r strategaeth yn lleol cyn fod y strategaeth wedi'i mabwysiadu. Tynnwn sylw at y ffaith na roddwyd y strategaeth o flaen y Cyngor llawn ( yn wahanol i'r hyn ddigwyddodd yn y Pwyllgor Craffu ) ac nid yw'r Cyngor wedi'i mabwysiadu.. Mae hyn yn annilysu'r broses.

Gan fod yr opsiynau eraill heblaw am gau'r ysgolion hyn yn debygol o droi o gwmpas dulliau cydweithio gydag ysgolion cyfagos, nid yw'n gwneud unrhyw synnwyr fod trafod tynged y 7 ysgol hyn flwyddyn cyn y trafodir dyfodol yr ysgolion o'u cwmpas.

Yn ei gyfarfod ar 13.12.07 penderfynodd y Cyngor Asesiad Ardrawiad Ieithyddol a Chymdeithasol. Unwaith yn rhagor penderfynir ar argymhelliad ar gyfer y 7 ysgol hyn cyn bod y Cyngor wedi derbyn yr asesiad hwn gan annilysu'r penderfyniad.

### 3) Degau o Ysgolion tan Gysgod

Bu'n rhaid i'r Cyngor estyn hyd at 2012 y cyfnod ymgynghori am ddyfodol yr holl ysgolion y bwriadwyd eu cau neu eu had-drefnu. Hyd yn oed wedyn, bydd ymgynghoriadau statudol am ddyfodol 27 o ysgolion rhwng Medi 2008 a Pasg 2009. Dyma faich weinyddol gwbl amhosibl I swyddogion y Cyngor ac I Swyddogion y Cynulliad a fydd yn trin apeliadau. Yn ymarferol, golygir na ellir rhoi sylw dyladwy I ysgolion unigol a mabwysiedir polisiau "cyffredinol" neu "blanced" er mwyn cwblhau'r holl bapurau ac asesiadau. Nid yw'r drefn statudol yn cydnabod proses o'r fath; mynna'n hytrach sylw I bob achos unigol ac mae'n anhygoel fod Cyngor yn gallu ystyried cymryd camau mor ddifrifol heb broses deg. Mae hefyd problem enfawr o'r ochr arall. Oherwydd fod y Cyngor wedi penderfynu ceisio llunio yn cynllun manwl anferth ar gyfer holl ysgolion y sir - yn lle datblygu fesul dalgylch - golygir y bydd cysgod dros ysgolion Categori "C" am 5 mlynedd. Sut yn y byd y gall llywodraethwyr gyflawni eu dyletswyddau cyfreithiol o ran "datblygu" eu hysgol tan y fath gysgod ac

amgylchiadau ? Mae'r holl broses mewn anrhefn lwyr.

B. Diffyg Amgyffrediad o Swyddogaeth Allweddol Ysgol Mewn Cymuned Bentrefol Gymraeg

.

(1) Honna'r Cyngor yn gyson nad yw eu hargymhellion yn niweidiol i'r iaith Gymraeg gan y caiff disgyblion eu trosglwyddo at ysgolion eraill sydd hefyd yn Gymraeg eu cyfrwng. Dyma fethu'r pwynt yn gyfangwbl. Nid ein honiad yw y bydd sgiliau unigol disgyblion yn cael eu peryglu, ond yn hytrach y tanseilir y gymuned Gymraeg y maent yn aelodau ohoni trwy dynnu'r ysgol sy'n rhoi ffocws I fywyd ifanc Cymraeg y pentref ac, mewn enghreifftiau o bentrefi sydd wedi profi mewnlifiad sylweddol, yn brif gyfrwng cynnal Cymreictod y pentre a chymhathu plant mewnfudwyr.

(2) Nid mater emosiynol a chymdeithasol yn unig yw hwn. Mae hefyd werth addysgol pendant o dderbyn cefnogaeth cymuned a rhieni mewn ysgol bentrefol, ac yn sicr werth o ran addysg Gymraeg. I lawer o blant mewnfuwyr, yr ysgol yw eu mynedfa at y gymuned leol ac mae bod yn rhan o ysgol y pentre'n gwneud y Gymraeg yn gyfrwng cyfathrebu'n hytrach nag yn gyfrwng addysgol.

(3) Mae'n ddi-ymwad fod potensial i broblemau addysgol godi mewn ysgol fach iawn o ganlyniad i adnoddau dysgu neu faterol cyfyngedig, ond gellir datrys problemau o'r fath trwy gydweithio a rhannu adnoddau rhwng ysgolion cyfagos yn hytrach na thrwy gau ysgol a cholli'r manteision oll.

(3) Mae plant o Oed Sylfaen tan anfantais addysgol ar ddechrau eu gyrfa addysgol os caeir ysgol yn eu cymuned. Ni chaniateir cludo plant tan 5 oed ar Fws Ysgol, ac fe'u hamddifedir felly o Addysg Oed Feithrin pan gaeir yr ysgol bentre oni bo gan eu rhieni y moddion i'w cludo'n breifat.

(4) Wrth reswm, mae swyddogaeth a phwysigrwydd ysgol tu fewn I gymuned yn amrywio o bentre I bentre fel y mae'r cymunedau eu hunain yn amrywio e.e. nid yr un yw profiad cymuned bentrefol ar gyrion tref a phrofiad pentref yng nghefn gwlad. Mae swyddogaeth yr ysgol o ran cynnal cymuned Gymraeg hefyd felly'n amrywio. Ond gellir datgan nifero o wirioneddau cyffredinol. Pan fo Cymreictod cymuned bentrefol tan fygythiad, yr ysgol sy'n cynnig y gobaith gorau tuag at y dyfodol ac yn aml yn symbol o'r gobaith hwnnw. Ar y llaw arall, mae rhieni ifainc yn llawer llai tebygol o brynu tai mewn pentrefi heb ysgolion (onibai fod ffactorau eraill fel agosatrwydd at dref fawr) ac y mae'r cymunedau pentrefol hyn yn heneiddio. Does dim yr un deinameg gymdeithasol I ieuenctid lleol nac I oedolion ifainc gan fod y ffocws wedi mynd. Nid yw cau ysgol yn lladd pentre Cymraeg dros nos, ond gall fod yn ddedfryd ohiriedig.

(5) Pan gaeir ysgol, yn aml caiff y gymuned o blant ei chwalu wrth fod rhieni'n eu danfon I wahanol gyfeiriadau yn ol eu mympwy a'u cyfleustra teuluol a gwaith.

(6) Yr ydym yn siomedig nad oes yn y strtegaeth unrhyw ymdriniaeth a photensial rhesymoli cadarnhaol - sef arbed arian trwy wneud defnydd helaethach o'r adeiladau a'r adnoddau. Gwan iawn yw dadl y Cyngor nad yw cymuned leol yn gwneud llawer o ddefnydd o nifer o'r adeiladau. Dylai fod yn gyfrifoldeb gan y Cyngor a'u partneriaid cyhoeddus I wneud awdit o'r holl wasanaethau cyhoeddus a gynigir mewn cymunedau pentrefol a sut y gellid eu cyflwyno'n well trwy wneud defnydd o'r adnoddau hyn ac felly dynnu cyfalaf o gronfeydd eraill tuag at welliannau adeilad. Hyd y gwyddom, nid yw'r Cyngor wedi gwneud unrhyw ymdrech I gefnogi'n galwad ni ar I Adran Materion Gwledig Llywodraeth y Cynulliad gymryd drosodd adeiladau ysgolion pentrefol penodol a'u datblygu'n asedau cymunedol. Byddai hyn yn rhyddhau Awdurdodau Lleol o gyfrifoldebau adeilad ac yn dychwelyd y drafodaeth ar ysgolion pentrefol yn ol at dir addysg.

(7) Credwn fod y Cyngor yn gosod gormod o bwys ar eu cynllun o "Brifathrawon di-gyswllt" a fydd yn "genhadon" dros y Gymraeg yn y cymunedau. Os bydd y rhain yn brifathrawon ar ysgolion a fyddant yn gwasanaethu 4 neu 5 o gymunedau, go brin y byddant yn gwneud argraff enfawr ar ragolygon y Gymraeg yn yr holl wahanol gymunedau hyn trwy'r ychydig oriau'r wythnos a fyddant ar gael i'r perwyl.

## C. Ffederasiynau Anhyblyg

**(**1) Mae Cymdeithas yr Iaith yn cytuno'n llwyr fod hybu cydweithio agos rhwng ysgolion cyfagos yn ddull cadarnhaol o ehangu ystod profiadau addysgol a chymdeithasol disgyblion tra'n cynnal canolfan addysgol oddifewn I bob cymuned. Gall cydweithio o'r fath fod ar ffurf clwstwr gydag amcanion penodol neu'n un ysgol ffedereiddiedig ar sawl safle.

(2) Mae'r holl gysyniad o glystyru a ffedereiddio'n un hyblyg yn ei hanfod - sef plygu cyfundrefnau addysg I anghenion lleol, nid fel arall ! Trwy geisio gwthio un model arbennig o ffederasiwn - o faintioli arbennig a chyda phrifathro di-gyswllt - ar lawer o wahanol fathau o gylchoedd y mae'r Cyngor mewn perygl o'u gelyniaethu o'r holl gysyniad. Rhaid llunio, wedi trafodaethau amyneddgar, modelau sy'n gweddu I bob cylch a bod y cymunedau lleol yn teimlo perchnogaeth ar y cyfundrefnau newydd. Er enghraifft, yn ein hymateb gwreiddiol, eglurasom fod y model ar ffederasiwn sydd wedi datblygu a thyfu'n llwyddiannus yn Ysgol Carreg Hirfaen (Sir Gaerfyrddin) yn gyfangwbl wahanol i'r hyn a gynigir yng Ngwynedd. Dyma ddangos fod angen cyfundrefnau addysgol sydd wedi'u llunio I ateb gofynion lleol.

(3) Mae Llywodraeth y Cynulliad ar fin cyhoeddi canllawiau newydd - ar gyfer ymgynghori - ar gyfer cydweithio strwythuredig rhwng ysgolion fel alternatif I ffederasiynau ffurfiol. Byddai hyn yn rhoi mwy o sicrwydd I ysgolion gan na allent eu cau heb broses statudol llawn - yn wahanol I safleoedd ffederasiynau. Dyma osgoi'r bryder fod creu ffederasiwn yn ddull o wthio cyfrifoldeb cau safleoedd ar lwyodraethwyr. Gall cyfundrefnau fel hyn fod yn addas mewn rhai cylchoedd, ffederasiynau mewn rhai cylchoedd eraill.

(4) Credwn mai annoeth iawn yw trafod cynlluniau cyn bod yr holl ystod newydd o bosibiliadau - a ddeuant yn sgil canllawiau'r Cynulliad - yn wybyddus. Yn wyneb y rhain, rhaid fydd ailedrych ar bob cylch mewn ysbryd o gydweithrediad i ddarganfod yr atebion

sy'n gweddu orau i anghenion y cymunedau lleol. Gyda'r ysbryd hwn, mae'n bosibl y gallai'r Cyngor osgoi llawer o brosesau ymgynghorol hirfaith a dadleuol. O wrthod cydweithio gyda meddwl agored, bydd baich a gwaith y Cyngor yn amhosibl. Nid ar chwarae bach y bydd ysgolion a chymunedau lleol yn ildio eu hetifeddiaeth. Fel y dywedwyd, galwn i bawb gymryd y Cyngor ar eu gair y byddant yn barod i wrando ar yr ymatebion i'w Cynllun gyda meddwl agored a pharodrwydd i newid.

Cymdeithas yr Iaith - Chwefror 2008.